BWRDD **TALIADAU**
REMUNERATION BOARD

At: Aelodau o'r Senedd
Cc: Yr holl staff cymorth

16 Mehefin 2021

Annwyl Aelodau,

Crynodeb o'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau, 27 Mai 2021

Ysgrifennaf atoch i roi cyflwyniad ichi ar waith Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd a hefyd i sôn wrthych chi am ein cyfarfod diweddar.

Yn gyntaf, llongyfarchiadau ar gael eich ethol yn Aelod o'r Senedd. Ni ellir gorbwysleisio maint yr her sy'n wynebu Cymru wrth iddi ddechrau ymdopi ag effaith y pandemig. Mae'r Bwrdd yn barod i weithio gyda chi i sicrhau bod gennych yr adnoddau priodol i gyflawni'ch rôl yn cynrychioli pobl Cymru a'u buddiannau.

Prif gyfrifoldeb y Bwrdd yw penderfynu ynghylch cyflogau Aelodau o'r Senedd a'r cymorth ariannol uniongyrchol a gânt. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u hamlinellu yn y **Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau**, neu'r "Penderfyniad" fel y caiff ei alw fel arfer. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf ym mis Mawrth 2021; mae braslun o'r prif newidiadau a wnaed ers Penderfyniad 2020-21 yn yr **adroddiad** cysylltiedig.

I grynhoi, mae'r Penderfyniad ar gyfer y tymor seneddol newydd hwn yn cynnwys darpariaethau i geisio dileu rhwystrau a allai atal rhai rhag sefyll i gael eu hethol i swydd gyhoeddus ee rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu (adran 3A o'r Penderfyniad). Hefyd, mae rhai darpariaethau wedi'u cryfhau i sicrhau eu bod yn dryloyw; yn sicrhau gwerth am arian a thegwch i'r Aelodau a threthdalwyr Cymru. Fel rhan o'i adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad yn ddiweddarach eleni, bydd y Bwrdd yn ystyried y modd y caiff y Penderfyniad ei roi ar waith. Fel arfer, bydd yn ymgynghori â'r Aelodau a staff ynghylch unrhyw newidiadau.

Mae gweddill y llythyr hwn yn crynhoi'r trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd ddydd Iau 27 Mai 2021. Cewch wybodaeth debyg ar ôl pob cyfarfod o'r Bwrdd. Bydd gwybodaeth am y cyfarfodydd hefyd ar gael ar **wefan** y Bwrdd.

Ymgysylltu â'r Aelodau a'u staff

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Taliadau@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Remuneration@senedd.wales
0300 200 6565

Bydd y Bwrdd yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r Aelodau a staff cymorth, naill ai drwy'r grwpiau cynrychiadol neu drwy gyfrwng cyfarfodydd i drafod pryderon penodol neu unrhyw faterion y bydd yn ymgynghori yn eu cylch. Gall y cyfarfodydd hyn helpu'r Bwrdd i feithrin dealltwriaeth well o'r anawsterau sy'n wynebu'r Aelodau a'u staff cymorth. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i chi dynnu sylw'r Bwrdd at faterion penodol. Gallai hyn gynnwys materion sy'n effeithio ar eich gwaith neu syniadau posibl ynghylch sut y gellid gwella'r lwfansau sydd ar gael ichi.

Ar ddechrau tymor newydd, mae'r Bwrdd yn awyddus i'r cyfleoedd hyn i ymgysylltu barhau. Gan hynny, bydd y Bwrdd hefyd yn cwrdd bob tymor â'r grwpiau sy'n cynrychioli'r Aelodau a'r staff cymorth. Bydd y Bwrdd yn cysylltu â'r grwpiau plaid a'r Aelodau unigol i gadarnhau aelodau'r ddau grŵp cynrychiadol.

Ailddechreuodd y Bwrdd ei raglen ymgysylltu â swyddfeydd etholaeth/rhanbarthol yn ystod misoedd olaf y Pumed Senedd. Mae'r Bwrdd yn dymuno i'r rhain barhau naill ai fel cyfarfodydd rhithwir neu gyfarfodydd personol (gan ddibynnu ar y rheoliadau Covid-19 perthnasol a fydd ar waith ar y pryd). Bydd y Bwrdd yn cysylltu â swyddfeydd i ofyn a hoffent gwrdd. Fodd bynnag, os bydd eich swyddfa'n dymuno cwrdd cyn hynny, rhowch wybod i'r ysgrifenyddiaeth a fydd yn gwneud y trefniadau angenrheidiol. Y gobaith yw y bydd y cyfarfodydd hyn yn ffurfio amserlen ymgysylltu reolaidd rhwng y Bwrdd a swyddfeydd yr Aelodau.

Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried sut y gall gynnal ei sesiwn 'galw heibio' blynyddol gydag Aelodau. Caiff y rhain eu cynnal fel arfer ym mis Gorffennaf yn y Senedd, yn ystod y Cyfarfodydd Llawn. Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am y modd y gallwch gymryd rhan yn nes at yr amser.

Y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau etholiadau'r Senedd

Cynhaliodd y Bwrdd drafodaeth hefyd ar ganlyniadau etholiad diwethaf y Senedd. Cafodd wybodaeth am ganlyniad yr etholiad a'r prif swyddogion a benodwyd. Ystyriodd hefyd y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n codi o'r etholiad. Mae hyn yn bwysig i'r Bwrdd wrth iddo ystyried yr hyn y gall ei wneud, o fewn ei gylch gwaith, i leihau'r rhwystrau posibl a allai atal rhai rhag sefyll mewn etholiad.

Trafododd y Bwrdd hefyd pryd y byddai angen iddo benderfynu ynghylch tâl cadeiryddion pwyllgorau. Mae'r Penderfyniad yn cynnwys dwy gyfradd ar gyfer tâl cadeiryddion pwyllgorau; cyfradd uwch ac is. Dim ond ar ôl i'r Bwrdd bennu pa gyfradd y dylid ei thalu i bob cadeirydd y gellir talu'r cyfraddau ychwanegol. Mae penderfyniad y Bwrdd wedi'i seilio ar nifer o ffactorau. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldebau'r cadeirydd pwyllgor penodol, ond nid dim ond hynny. Cytunodd y Bwrdd i drafod y mater hwn cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod cadeiryddion pwyllgorau'n cael eu talu'n brydlon am eu cyfrifoldebau ychwanegol.

Cymorth Covid-19 i swyddfeydd yr Aelodau

Trafododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am bandemig Covid-19 a'i effaith ar Aelodau, eu swyddfeydd a gwaith y Senedd.

Ers dechrau'r pandemig y gwanwyn diwethaf, mae'r Bwrdd wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i gynorthwyo'r Aelodau a'u staff. Gwneir mesurau o'r fath o dan adran 2.5 o'r Penderfyniad ac maent yn cynnwys:

- **Lwfans gweithio gartref:** lwfans o hyd at £26 y mis sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol i helpu staff i dalu'r costau ychwanegol cysylltiedig â gweithio gartref. Mae'r gyfradd hon yn unol â chanllawiau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
- **Asesiadau DSE ar-lein:** cwrs ar-lein i ddysgu Aelodau a staff cymorth sut i gynnal asesiad DSE a deall pa addasiadau sydd eu hangen i weithio'n ddiogel. Gall yr Aelodau hawlio arian o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i dalu am gostau'r cyfarpar y mae ei angen ar gyfer addasiadau;
- **Cronfa Dychwelyd i Swyddfeydd Covid-19:** cyllid i helpu'r Aelodau i dalu am y costau sydd ynghlwm wrth fodloni gofynion newydd iechyd a diogelwch a sicrhau bod eu swyddfeydd etholaeth / rhanbarthol yn ddiogel o ran Covid.

Gall Cymorth Busnes i'r Aelodau roi rhagor o wybodaeth i'r Aelodau am y cymorth uchod sydd ar gael. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae arferion gwaith staff wedi newid ac mae rhai yn parhau i weithio gartref ac eraill yn dychwelyd i'r swyddfa. Yn naturiol, mae angen ystyried pa mor barhaol fydd trefniadau gweithio o'r fath yn y dyfodol. Yn ogystal, mae ansicrwydd parhaus ynghylch y cyfyngiadau a roddir ar waith am resymau iechyd cyhoeddus, a sut y bydd y rhain yn newid yn y dyfodol.

O ystyried hyn oll, mae'r Bwrdd yn bwriadu adolygu'r darpariaethau hyn dros yr haf. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn dilyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Yn y cyfamser, bydd y cymorth sydd ar gael eisoes yn parhau.

Newid rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, trafododd y Bwrdd effaith achosion McCloud a Sargeant ar Gynllun Pensiwn y Senedd. Roedd yr achosion hyn yn ymwneud â herio'r darpariaethau trosiannol mewn dau gynllun pensiwn ar y sail bod aelodau iau yn cael eu trin yn llai ffafriol ar sail oedran. Mae darpariaethau tebyg yng Nghynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd ac maent yn effeithio ar Aelodau a oedd yn aelodau gweithredol o'r Cynllun ar 1 Ebrill 2012 ac a oedd yn parhau mewn gwasanaeth gweithredol tan 6 Mai 2016. Ym mis Ionawr, penderfynodd y Bwrdd drafod y mater eto unwaith y bydd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi trafod y mater.

Yn ei gyfarfod ym mis Mai, trafododd y Bwrdd sylwadau Bwrdd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn ynghyd â chyngor cyfreithiol. Ar ôl ystyried y cyngor hwn, penderfynodd y Bwrdd y dylai ddod o hyd i ffordd o ddileu gwahaniaethu o reolau'r Cynllun Pensiwn.

Bydd yr ateb sy'n cael ei gynnig yn ceisio dileu'r anghydraddoldeb sy'n bodoli gan ymyrryd cyn lleied â phosibl â gweddill y Cynllun. Bydd y Bwrdd yn ysgrifennu at yr Aelodau hynny y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt ac yn eu gwahodd i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ynghylch y cynnig. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn ddiweddarach y mis hwn.

Dyfeisiau diogelwch personol

Mae diogelwch yr Aelodau a'u staff cymorth yn bwysig iawn i'r Bwrdd. Ers 2016, mae'r cymorth ar gyfer diogelwch wedi cynyddu cryn dipyn. Rôl y Bwrdd yn y cyswllt hwn yw darparu'r cyllid ar gyfer mesurau diogelwch priodol. Bydd yn gwneud hyn drwy amlinellu'r cyllid sydd ar gael mewn gwahanol adrannau o'r Penderfyniad gan gynnwys ad-dalu costau diogelwch ychwanegol os dyna yw cyngor Tîm Diogelwch Comisiwn y Senedd (gweler adran 6.6 o'r Penderfyniad).

Yn ei gyfarfod, nododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan Gomisiwn y Senedd ynghylch rhoi dyfeisiau diogelwch i'r Aelodau. Mae'r Bwrdd yn eich annog i ddefnyddio'r dyfeisiau hyn er mwyn gwella'ch diogelwch personol. Bydd y Bwrdd yn cael rhagor o wybodaeth am faterion diogelwch yn ddiweddarach eleni.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw bryderon am eich diogelwch chi neu'ch staff cymorth, cysylltwch â Thîm Diogelwch Comisiwn y Senedd i ofyn am gyngor a chymorth.

Gwefan newydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi bod yn adolygu tudalennu drafft ei wefan newydd. Bydd y wefan newydd yn cael ei lletya ar wefan y Senedd a bydd yn cynnwys yr holl wybodaeth y bydd ei hangen arnoch mewn perthynas â gwaith y Bwrdd. Caiff y wefan newydd ei chyhoeddi cyn toriad yr haf.

Strategaeth a blaenraglen waith

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei strategaeth, cynhaliodd y Bwrdd sesiwn cynllunio senarios i ystyried goblygiadau ei waith os na fydd y Senedd yn cael ei diwygio. Roedd hyn yn dilyn sesiwn debyg a gynhaliwyd ym mis Ionawr pan ystyried yr hyn y byddai'n rhaid i'r Bwrdd ei wneud pe bai deddfwriaeth i greu Senedd fwy yn cael ei phasio yn ystod y tymor hwn. Bydd canlyniadau'r trafodaethau hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth y Bwrdd ar gyfer 2021-26, a fydd yn mynd rhagddo ym mis Gorffennaf, ac a gaiff ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Ymadawiad aelod o'r Bwrdd

Yn olaf, hoffwn eich hysbysu y bydd Ronnie Alexander yn gadael y Bwrdd y mis hwn, a hynny ar ôl pedair blynedd o wasanaeth. Mae hyn yn dilyn ei benderfyniad i dderbyn penodiad arall. Yn bersonol, rwyf wedi gwerthfawrogi ei gyfraniad i'r Bwrdd yn aruthrol ers imi ddod yn Gadeirydd y llynedd. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â'm cyd-aelodau ar y Bwrdd i ddiolch i Ronnie am ei gyfraniad ac i ddymuno'n dda iddo yn y dyfodol.

Fel yr amlinellwyd ar y dechrau, byddwn yn eich diweddaru'n rheolaidd i wneud yn siŵr ein bod yn gwybod am ein gwaith. Yn y cyfamser, os hoffech drafod unrhyw fater â mi neu'r Bwrdd, mae croeso i chi gysylltu drwy'r ysgrifenyddiaeth.

Cofion gorau,

Dr Elizabeth Haywood

Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.